# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 18 Mai, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N.B. Marshallsea, J.M. Norman, H.M. Payne a E. Penn

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd); R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru) a Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd); A. Emmerson ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: : Cynghorwyr R.M. Birch **(**Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G.D.D. Carroll, A.M. Ernest, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

38 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

39 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd H.M. Payne yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

40 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R.E. Godfrey.

41 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir.

42 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd Cynghorydd H.M. Payne fuddiant cyffredinol (personol nid rhagfarnol), nad oedd yn ymwneud ag eitem benodol ar yr agenda, gan ei bod yn Ymddiriedolwr ac yn Is-Gadeirydd Fforwm Ieuenctid y Fro.

43 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD CHWARTER 2022/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL ARFAETHEDIG 2023/24 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac Amserlen arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2023/24, ac roedd yn cynnwys y canlynol:

- Olrhain Argymhelliad Chwarter 3 - mis Hydref i fis Rhagfyr 2022 (Atodiad A);
- Olrhain Argymhellion Chwarter 4 - mis Ionawr i fis Mawrth 2023 (Atodiad B);
- Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2023/24 (Atodiad C); ac
- Amserlen Arfaethedig Blaenraglen Waith Flynyddol 2023/24 (Atodiad D).

Cyflwynodd y Cadeirydd Flaenraglen Waith arfaethedig y Pwyllgor, a gwahoddodd yr Aelodau i awgrymu pynciau i'w hystyried ar agendâu yn y dyfodol, drwy gysylltu naill ai ag ef ei hun neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Yn dilyn cyflwyniad y Cadeirydd, nododd yr Is-gadeirydd y goblygiadau a restrwyd yn yr adroddiad, ac awgrymodd y gellid ychwanegu ystyriaeth bellach ynghylch lles staff, yn enwedig y rhai yn y Gwasanaethau Addysg.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg fod presenoldeb ysgol, ar ôl effaith Covid-19, a'r hyn yr oedd Awdurdodau Lleol yn ei wneud i fynd i'r afael â'r ffaith nad yw rhai plant wedi dychwelyd i'r system ysgolion, o ddiddordeb. Dywedodd y Pennaeth Safonau a Darpariaeth y gellid trefnu adroddiad am hyn ar gyfer tymor yr Hydref, a chroesawyd hyn gan y Cadeirydd.

Yn dilyn hynny, awgrymodd y Cynghorydd Hodges y dylid ystyried y pynciau canlynol fel rhan o agendâu'r dyfodol:

- Cynnydd a newidiadau o ran yr Oriel Gelf Ganolog;
- Diweddariad ynglŷn â llyfrgelloedd;
- Newidiadau i gyllidebau ysgolion ac effaith y rhain ar ysgolion.

Croesawyd y pynciau hyn hefyd gan y Cadeirydd. Dywedodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod diweddariad am yr Oriel Gelf Ganolog wedi'i drefnu fel rhan o'r adolygiad gwasanaeth ar gyfer y celfyddydau, a oedd bellach ar y gweill yn dilyn Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Dywedodd y Swyddog hefyd fod adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor am sefyllfa bresennol Llyfrgelloedd yn bosibl yn nhymor yr Hydref.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, mae’r Pwyllgor Craffu wedi hynny:

ARGYMHELLWYD –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

(2) Y DYLID nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant 2023/24.

(3) CYMERADWYO Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag Adran 7.6 o Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.